Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-916
Ein cyf/Our ref LG/07119/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@llyw.cymru

Hydref 2019

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref ynglŷn â Deiseb 05-916: Cyllid digonol i amddiffyn lles anifeiliaid yn lladd-dai Cymru, a dderbyniwyd oddi wrth Mr David Grimsell.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau safonau lles uchel ar gyfer yr holl anifeiliaid sy'n cael eu cadw yng Nghymru, yn ystod pob cyfnod o'u bywydau, gan gynnwys adeg eu lladd. Mae pob sefydliad sector cyhoeddus yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch nodi ac ariannu blaenoriaethau. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir gyda chyllidebau sy'n mynd yn llai ac yn llai. I sicrhau'r effeithiau gorau posibl mae swyddogion yn cwrdd â chydweithwyr yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gytuno ar flaenoriaethau o fewn y cyllid sydd ar gael. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill hefyd i sicrhau y bodlonir y safonau uchaf o les ar gyfer anifeiliaid ar adeg eu lladd.

Rwyf wedi dweud yn flaenorol y byddwn i'n ystyried cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod teledu cylch cyfyng ar waith ym mhob lladd-dy yng Nghymru. Fodd bynnag, rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda gweithredwyr lladd-dy, mewn perthynas gefnogol, i gyflawni'r un amcan. Agorodd y cyfnod ar gyfer datgan diddordeb mewn Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ar gyfer lladd-dai ar 30 Medi 2018. Mae'r ymateb gan ladd-dai wedi bod yn gadarnhaol, gyda phrosiectau sy'n cynnwys buddsoddi i ddiogelu lles anifeiliaid, fel gosod, uwchraddio neu wella teledu cylch cyfyng yn cael blaenoriaeth. Rydym bellach yn symud o ddatganiadau o ddiddordeb i geisiadau llawn, gyda dyddiad cau ar gyfer y rhain ym mis Ionawr 2020.

Mae ymgeiswyr llwyddiannus y cynllun yn derbyn canllawiau ar osod a rheoli teledu cylch cyfyng, a disgwylir iddynt ddilyn protocol wedi'i ddatblygu a'i gytuno ar y cyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd a chyrff y diwydiant i alluogi milfeddygon swyddogol i gael mynediad at recordiadau teledu cylch cyfyng. Bydd prosiectau sy'n derbyn cyllid grant yn cael eu harchwilio pan fyddant wedi eu cwblhau, ac os oes tystiolaeth nad yw'r protocolau yn cael eu dilyn ar draws y diwydiant, byddaf yn barod i gyflwyno deddfwriaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er y gallai teledu cylch cyfyng gyfrannu at ddiogelu lles anifeiliaid mewn lladd-dai, ni ddylid ystyried mai dyma'r unig ateb, ac mae llawer mwy y gellir ei wneud. I ategu hyn, byddaf yn disgwyl i bob ymgeisydd dderbyn cyngor arbenigol ar les anifeiliaid wrth iddynt gael eu symud a'u rheoli ar eu safleoedd. Er mwyn diogelu lles anifeiliaid mae angen gwybodaeth a diwylliant sy'n parchu anifeiliaid, a bydd y cynllun grant yn gwneud cryn gyfraniad at y gwaith o fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Yn ogystal â'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, mae rhaglen Sgiliau Bwyd Cymru, sy'n cael ei chyflwyno gan Lantra, yn cefnogi busnesau o fewn y diwydiant prosesu a chynhyrchu bwyd a diod i sicrhau bod gan gyflogeion y sgiliau a'r hyfforddiant cywir. Mae Sgiliau Bwyd Cymru yn gweithio gyda Shropshire Training i gyflwyno 'Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd' i fusnesau ledled Cymru. Mae Sgiliau Bwyd Cymru hefyd yn gobeithio datblygu cyrsiau lles anifeiliaid ychwanegol ar gyfer lladd-dai i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn briodol ac yn derbyn gofal cyn eu lladd.

Rwy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les anifeiliaid yng Nghymru ac rwy'n gweithio gyda'r diwydiant i gyflawni'r canlyniadau gorau.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs